## COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR Y TY

**Dyddiad**: 30 Medi 2004

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda B, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
William Graham, AC Y Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Gwyn Griffiths, Is-adran y Gyfraith
Nadia Cummins, Cynghorydd Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd
Sara Lloyd Mackay, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

**Ymddiheuriadau**:

Peter Black, AC Y Democratiaid Rhyddfrydol
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd Owen John Thomas fel aelod newydd o Bwyllgor y Ty a Nadia Cummins, Cynghorydd Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

### 1 Adroddiad Cyllid Gwasnaethau Seneddol y Cynulliad HC(2)-06-04(p1)

Nododd yr Aelodau fod rhywfaint o'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn gyfrinachol am resymau masnachol.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai cytundeb cyflog blynyddol y Gwasanaeth Sifil y cytunwyd arno'n ddiweddar yn cael ei adlewyrchu yn y costau staffio. Dywedodd Wayne Cowley y byddai'r costau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y ffigurau am fis Hydref.

### 2 Cyhoeddi Manylion am Ymweliadau Tramor HC(2)-06-04(p2)

Nododd yr Aelodau y cais diweddar a dderbyniwyd gan bapur newydd lleol

yng Nghaerdydd am fanylion ymweliadau a wnaed gan yr Aelodau (ac eithrio yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidogion), ar gyfer blwyddyn ariannol 2003/04. Roedd hi’n debygol y byddai ceisiadau am ddatgelu y math hwn o wybodaeth yn dod yn fwy cyffredin wrth i’r gofynion statudol ddod i rym ym mis Ionawr 2005. Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i God Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a amlinellai sut y byddai’n delio â cheisiadau am wybodaeth cyn i’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ddod i rym ym mis Ionawr 2005.

Roedd y Cod yn ymdrin ag egwyddorion allweddol, a oedd yn arbennig o berthnasol i’r cais am wybodaeth a dderbyniwyd, a oedd yn cynnwys: sicrhau y gweithredir yn agored wrth ymgymryd â busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ymateb yn brydlon ac yn drylwyr i geisiadau am wybodaeth; a pharchu preifatrwydd personol, cyfrinachedd masnachol, dyletswydd cyfrinachedd a’r holl ddeddfau sy’n ymwneud â rhyddhau gwybodaeth. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol o’r Cod a hefyd egwyddorion Diogelu Data. Roedd y swyddogion yn ceisio cael rhagor o gyngor gan Gomisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol Cymru er mwyn penderfynu ar y dull gorau o ymdrin â’r cais.

Gofynnodd yr Aelodau i’r Swyddogion ddrafftio templed at ddibenion cyhoeddi gwybodaeth am ymweliadau rhyngwladol a rhyngranbarthol yr Aelodau fesul blwyddyn. Byddai’r Aelodau yn ymgynghori â grwpiau pleidiau ynglyn â’r mater. Gofynnodd yr Aelodau a allai eitem ar ymweliadau rhyngwladol a rhyngranbarthol gael ei rhoi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty ar 7 Hydref 2004.

**Gweithredu: Dianne Bevan / Yr Ysgrifenyddiaeth**

Gofynnodd yr Aelodau i’r Swyddogion ddrafftio ymateb i’r cais gan y papur newydd lleol yng Nghaerdydd. Câi holl Aelodau’r Cynulliad wybod am unrhyw wybodaeth a fyddai’n debygol o fod yn ofynnol a châi’r ymateb ei anfon atynt cyn ei ryddhau.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

## 3 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd William Graham y bu iddo ef ac Aelod arall gael trafferth gyda’r system cardiau sweip yn adeilad y Cynulliad. Byddai’r Swyddogion yn ymchwilio i’r mater.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**: 7 Hydref 2004 – Cyfarfod Cyhoeddus
Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty